**Papur 2**
# Papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

**Dydd Mercher 10 Hydref 2012**

## Cyflwyniad

1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cyflwyno ymrwymiad y Llywodraeth hon i ganolbwyntio ar ei phobl, ac ymrwymiad cryf i ddatblygu cymdeithas decach, ble gall pob unigolyn wneud y gorau o'i allu a chyfrannu at y gymuned y mae'n byw ynddi. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ymgorffori cyfle cyfartal a pherthynas dda ag eraill yn ei chynlluniau gwariant a phrosesau'r gyllideb, drwy gynnal Asesiad o Effaith ei Chyllideb ar Gydraddoldeb.

2. Yn y ddau Asesiad diwethaf o Effaith ein Cyllideb ar Gydraddoldeb, fe wnaethom ymdrech fawr i asesu effaith ein cynlluniau ar gydraddoldeb. 2011-12 oedd y tro cyntaf inni gynnal ymarferiad o'r fath, a buom yn gweithio'n galed i ddeall y dystiolaeth. Canolbwyntiwyd ar egluro'r penderfyniadau a wnaed yn dilyn unrhyw newidiadau, ar ôl cynnal yr asesiad o'r effaith.

## Cyllideb 2013-14: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

3. Hwn fydd trydydd Asesiad Llywodraeth Cymru o Effaith ei Chyllideb ar Gydraddoldeb. Caiff yr Asesiad o Effaith Cyllideb 2013-14 ar Gydraddoldeb ei gyhoeddi mewn dogfen ar wahân ar ddydd Llun, 8 Hydref. Bydd yn egluro pryd y gwnaed penderfyniad ynglŷn â'r Gyllideb ar ôl cwblhau Asesiad, a'r gwahaniaeth y mae'r penderfyniad hwnnw wedi'i wneud i bobl Cymru.

4. Eleni mae'r Asesiad o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn canolbwyntio ar bedair agwedd:

   - Adrodd ar effaith ymrwymiadau *"Pump am Ddyfodol Tecach"* ar gydraddoldeb;
   - Asesiad o Effaith cynlluniau gwariant ar Gydraddoldeb o fewn yr Adrannau;
   - Asesiad o'r ystyriaethau cymdeithasol-economaidd a'r ystyriaethau o ran cydraddoldeb, gan adlewyrchu penderfyniadau blaenorol y Gyllideb;
   - Buddsoddi Cyfalaf.

5. Os oedd yn debygol y byddai'r effaith yn sylweddol, cynhaliwyd asesiad llawn o effaith y newid arfaethedig i'r Gyllideb ar gydraddoldeb, er mwyn deall yr effaith ar bobl sydd â nodwedd warchodedig yn well.

6. Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd yn dangos ein bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i'r effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig cyn gwneud penderfyniadau, er mwyn bodloni ein dyletswyddau cyfreithiol.

**Y Pecyn Cymorth a'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Diwygiedig**

7. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i osod dyletswyddau penodol ym maes cydraddoldeb ar rai awdurdodau yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun. Bwriad y dyletswyddau penodol yw helpu awdurdodau i gydymffurfio â'r ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol, ac fe'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

8. Diwygiwyd ein proses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gyd-fynd â'r dyletswyddau penodol hyn er mwyn sicrhau bod pob polisi newydd, a pholisïau presennol sy'n cael eu diwygio a'u hadolygu, yn ystyried yr effaith ar bob unigolyn sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**